



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

# Brechlynnau a gelatin moch



Mae'r daflen hon yn disgrifio sut a pham mae gelatin moch yn cael ei ddefnyddio mewn brechlynnau



Mae'r ffaith fod cynhwysion porc mewn rhai brechlynnau yn destun pryder i rai grwpiau. Mae'r daflen hon wedi cael ei llunio i roi gwybodaeth am frechlynnau sy'n cynnwys y cynnyrch hwn a'r dewisiadau eraill a allai fod ar gael.

## **Beth yw gelatin?**

Mae gelatin yn sylwedd sy'n dod o'r colagen mewn anifeiliaid megis cywion ieir, gwartheg, moch a physgod. Mae tendonau, ligamentau, esgyrn a chartilag yn cynnwys colagen. Mae gelatin moch yn dod o golagen mewn moch. Mae pob math o gelatin sy'n cael ei ddefnyddio mewn meddyginiaethau yn cael ei gynhyrchu o dan reoliadau hyledid a diogelwch caeth.

## **Pam mae gelatin moch yn cael ei ddefnyddio mewn brechlynnau?**

Mae gelatin yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth eang o feddyginiaethau, gan gynnwys llawer o gapsiwlau a rhai brechlynnau. Mae gelatin moch yn cael ei ddefnyddio mewn brechlynnau fel sefydlogydd – i sicrhau bod y brechlyn yn ddiogel ac yn effeithiol tra bo'n cael ei storio.

Bydd cynhyrchwyr brechlynnau fel arfer yn profi amrywiaeth eang o sefydlogyddion ac yn dewis un sy'n sefydlog, o ansawdd da ac mae digon ohono ar gael. Yn wahanol i'r gelatin sy'n cael ei ddefnyddio mewn bwyd, mae'r cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio mewn brechlynnau wedi cael ei buro'n dda a'i dorri'n foleciwlau bach iawn, sef peptidau.

## **Pam nad yw'n bosibl gwneud brechlynnau gan ddefnyddio sefydlogyddion eraill neu fathau eraill o gelatin?**

Mae datblygu brechlyn yn cymryd blynyddoedd o brofi mewn labordy ac astudiaethau clinigol i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol. Unwaith y bydd y gwneuthurwr wedi dewis y sefydlogi ar gyfer y brechlyn, gall unrhyw newidiadau olygu bod angen gwneud astudiaethau labordy a chlinigol helaeth i ddangos nad yw wedi effeithio ar ddiogelwch ac effeithiolrwydd y brechlyn. Oherwydd hyn, gallai gymryd sawl blwyddyn i ddatblygu brechlyn newydd diogel ac effeithiol neu efallai na fyddai un yn cael ei ddatblygu o gwbl.

## **Pam mae gelatin moch yn cael ei ddefnyddio mewn brechlynnau?**

Mae tri brechlyn yn rhaglen imiwneiddio rheolaidd y DU sy'n cynnwys gelatin moch:

- Fluenz Tetra<sup>®</sup>, y brechlyn chwistrell i'r trwyn sy'n amddiffyn plant rhag ffliw.
- MMR VaxPro<sup>®</sup>, brechlyn sy'n amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.
- Zostavax<sup>®</sup>, y brechlyn sy'n amddiffyn oedolion hŷn rhag yr eryr.

## Beth yw barn y cymunedau ffydd?

Mae Public Health England (PHE) wedi ymgynghori â'r Kashrut a'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Feddyginiaethau, a ddywedodd:

*"Dylid nodi, yn ôl cyfreithiau Iddewig, nad oes problem pan fo gelatin moch neu gynhwysion eraill sy'n dod o anifeiliaid mewn cynhyrchion sydd ddim yn cael eu cymryd drwy'r geg. Mae hyn yn cynnwys brechlynnau, gan gynnwys rhai rydych yn eu cymryd drwy'r trwyn, pigiadau, tawddgyffuriau, hufenau ac eliau."*

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod amrywiaeth o fewn y cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig ym Mhrydain ac efallai y byddan nhw, a rhai grwpiau eraill, o'r farn na ddylid cymryd meddyginiaethau a brechlynnau sy'n cynnwys unrhyw gynnyrch sy'n dod o foch. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y byddai'r unigolyn yn methu derbyn llawer o gynhyrchion fferyllol oni bai bod dim dewis arall addas neu yr ystyrid bod y cynnyrch yn mynd i achub ei fywyd.

## Oes dewisiadau eraill addas yn lle'r brechlynnau hyn?

- MMR: yn y DU mae gennym ddau fath o frechlyn MMR – MMR VaxPro<sup>®</sup> a Priorix<sup>®</sup>. Nid yw Priorix<sup>®</sup> yn cynnwys gelatin ac mae yr un mor ddiogel ac effeithiol ag MMR VaxPro<sup>®</sup>.

- Yr eryr: Zostavax® yw'r unig eryr frechlyn ar gael ledled y byd ar hyn o bryd.
- Ffliw: Ar gyfer plant iach, nid oes dewisiadau eraill addas yn lle Fluenz Tetra®. Ceir rhai brechlynnau ffliw ar ffurf pigiad nad ydynt yn cynnwys gelatin porc ond mae'r rhain yn llai effeithiol na Fluenz Tetra® mewn plant. Mae'n bosibl y bydd angen dau ddos arnynt hefyd, ac maent yn gwneud llai i atal ffliw rhag gael ei ledaenu yn y gymuned. Dim ond fel rhan o'r rhaglen ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl mawr o gael cymhlethdodau oherwydd ffliw y mae'r brechlynnau hyn yn cael eu hargymell.

## **Bethos nad yw pobl eisiau cael brechlynnau sy'n cynnwys gelatin moch ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu plant?**

Chi fydd yn gorfod penderfynu yn y pen draw a ydych chi neu eich plentyn am gael brechiad ai peidio. Er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys, efallai y byddwch yn dymuno ystyried y dystiolaeth o fanteision ac anfanteision cael brechiad eich hun neu frechu eich plentyn. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno gofyn am gyngor gan arweinwyr eich ffydd neu arweinwyr eraill yn y gymuned.

Dylai rhieni nad ydynt yn dymuno i'w plant gael y brechlyn MMR sy'n cynnwys



gelatin moch ofyn i'w meddyg teulu am y brechlyn Priorix®. Bydd cwrs llawn, sef dau ddos, yn amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Nodwch y gallai fod rhaid i'r practis archebu'r cynnyrch hwn yn arbennig ar eich cyfer, felly bydd o gymorth os gallwch egluro iddynt beth yw eich barn cyn yr apwyntiad.

Os yw ffliw'n peri risg uchel i'ch plentyn oherwydd bod ganddo gyflwr iechyd arall, ystyrir mai'r brechlyn ar ffurf chwistrell i'r trwyn yw'r opsiwn gorau. Os na allant ei gael am resymau meddygol, dylent gael brechlyn ffliw ar ffurf pigiad. Ar gyfer oedolion y mae ffliw'n peri risg uchel iddynt, dylid rhoi'r brechlyn ar ffurf pigiad hefyd. Nid oes brechlyn arall ar gael ar gyfer plant iach fel rhan o raglen flynyddol y GIG. Fodd bynnag, wrth i ragor o blant yn eich ardal gael y brechiad i'r trwyn, dylai fod llai o siawns y byddwch chi a'ch teulu'n dod i gysylltiad â ffliw. Ar gyfer pobl hŷn sydd eisiau amddiffyn eu hunain rhag yr eryr, nid oes dewis arall yn lle Zostavax® ar hyn o bryd.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cyn gwneud eich penderfyniadau ynghylch brechlynnau, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs practis neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647 neu ewch i [www.wales.nhs.uk/cym](http://www.wales.nhs.uk/cym)



Mae hyn yn hynod bwysig os oes risg uchel y byddwch yn cael y clefydau y mae'r brechlynnau hyn yn eu hatal yn effeithiol. Gallwch archebu rhagor o gopiau o'r daflen hon drwy anfon e-bost i:

[hplibrary@wales.nhs.uk](mailto:hplibrary@wales.nhs.uk) neu ffonio 0845 064050

Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd caredig Public Health England